Llywodraeth Cymru
Welsh Government

ADRODDIAD

# Datblygiadau mewn arferion dysgu o bell a dysgu cyfunol: ymateb y llywodraeth

Ein hymateb i adroddiad ac argymhellion Estyn ar ddatblygiadau mewn arferion dysgu o bell a dysgu cyfunol.

Cyhoeddwyd gyntaf: 31 Mawrth 2021

Diweddarwyd ddiwethaf: 31 Mawrth 2021

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/datblygiadau-mewn-arferion-dysgu-o-bell-dysgu-cyfunol-ymateb-y-llywodraeth-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Cynnwys


Teitl yr adroddiad

Manylion yr adroddiad

Crynodeb o’r prif ganfyddiadau

Argymhellion ar gyfer darparwyr dysgu

Ymateb Llywodraeth Cymru i’r argymhellion ar gyfer darparwyr dysgu

Argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru

Manylion cyhoeddi


## Teitl yr adroddiad

Datblygiadau mewn arferion dysgu o bell a dysgu cyfunol yn y sector ôl-16

## Manylion yr adroddiad

Mae’r adroddiad yma yn darparu trosolwg o’r modd y mae colegau addysg bellach, darparwyr dysgu yn y gwaith a phartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned wedi datblygu eu harfer i gyflwyno addysgu, hyfforddiant a dysgu, naill ai fel dysgu o bell neu ddysgu cyfunol, rhwng mis Mawrth 2020 a mis Ionawr 2021. Mae’r adroddiad yn cofnodi’r cryfderau a’r heriau parhaus sy’n wynebu darparwyr a dysgwyr, ac yn rhannu cameos o arfer sy’n dod i’r amlwg. Mae sail y dystiolaeth ar gyfer yr adolygiad hwn yn defnyddio cyfweliadau, arsylwadau a grwpiau ffocws gan arolygwyr Estyn gyda dysgwyr, tiwtoriaid, athrawon ac aseswyr; a chwblhawyd bob un o’r rhain o bell.


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/datblygiadau-mewn-arferion-dysgu-o-bell-dysgu-cyfunol-ymateb-y-llywodraeth-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Crynodeb o'r prif ganfyddiadau

Mae'r pandemig wedi achosi newid amlwg mewn addysgu a dysgu yn y sectorau ôl-16. Mae darparwyr a'u staff ar draws yr holl sectorau ôl-16 wedi dangos ymagwedd gadarn at ddysgwyr a'u lles.

Er y bu gwelliannau yn ansawdd yr addysgu a'r dysgu trwy ddysgu o bell a dysgu cyfunol ers dechrau'r pandemig, mae ansawdd yr addysgu a'r dysgu ar-lein yn parhau i amrywio, ar y cyfan.

Mae darparwyr a'u staff ar draws pob sector wedi dangos llawer o ymroddiad i ddatblygu eu medrau mewn addysgu ac asesu o bell a chyfunol. Roedd y darparwyr hynny a oedd wedi dechrau cyflwyno elfen o addysgu a dysgu o bell neu ddysgu cyfunol yn eu cynnig cwricwlwm cyn y cyfnod clo ym mis Mawrth 2020 mewn sefyllfa gryfach i gyflwyno darpariaeth arall ar-lein yn gyflym.

Mae yflwyno dysgu o bell a dysgu cyfunol wedi achosi newid yn y modd y mae darparwyr a staff yn sicrhau ansawdd cyrsiau ar-lein ac yn rhannu arfer. Mae'r defnydd gwell o dechnoleg yn galluogi cyfleoedd ar gyfer mwy o fyfyrio unigol, a rhannu arfer arloesol ymhlith staff ar draws y darparwr.

Roedd partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned dan anfantais o ran cyflwyno dysgu oedolion ar-lein, oherwydd gan amlaf, nid oes ganddynt dimau cymorth dysgu TG canolog, amgylcheddau dysgu rhithwir na mynediad at adnoddau ar-lein a rennir i gefnogi cynllunio a chyflwyno i ddysgwyr, yn enwedig i'r dysgwyr hynny sydd dan anfantais.

Mae wedi bod yn anos symud rhai cyrsiau a rhaglenni i ddysgu o bell na chyrsiau neu raglenni eraill. Mae hyn wedi bod yn arbennig o wir am ddysgwyr yn y sectorau addysg bellach a dysgu yn y gwaith sy'n dilyn prentisiaethau a chyrsiau technegol, gan fod angen iddynt ymarfer ag offer arbenigol ac mewn cyfleusterau arbenigol, yn ogystal â gwneud asesiadau dan oruchwyliaeth i arddangos cymhwysedd galwedigaethol neu broffesiynol.

Pan fydd staff yn gweithio mewn timau i ddatblygu cyrsiau addysgu a dysgu o bell a chyfunol, gallant rannu cyfrifoldebau, methodoleg addysgu, syniadau ac adnoddau. Mae hyn yn arwain yn gyffredinol at gyrsiau ar-lein gyda mwy o

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/datblygiadau-mewn-arferion-dysgu-o-bell-dysgu-cyfunol-ymateb-y-llywodraeth-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

gydlyniaeth a chydbwysedd da o weithgareddau cydamserol ac anghydamserol pwrpasol sy'n hyrwyddo dysgu.

Mae darparwyr wedi nodi manteision annisgwyl yn deillio o roi cyrsiau ar-lein. Er enghraifft, mae'r hyblygrwydd gwell yn denu ystod ehangach o ddysgwyr, gan eu bod yn gallu cael mynediad at ddysgu yn haws.

Yn y sectorau addysg bellach a dysgu oedolion yn y gymuned, mae darparwyr wedi addasu eu cynnig cwricwlwm yn gyflym ac yn briodol i ddiwallu anghenion dysgwyr sydd wedi colli cyflogaeth ac angen ailsgilio i gael mynediad at y farchnad swyddi.

Er gwaethaf eu hymdrechion i ddatblygu dulliau dysgu ac asesu o bell a chyfunol, mae darparwyr yn ystyried bod gormod o achosion pan na fu sefydliadau dyfarnu yn ddigon hyblyg o ran addasu eu gofynion. Mae hyn wedi golygu bod gormod o ddysgwyr yn aros i gwblhau eu cymwysterau a derbyn eu dyfarniadau yn ystod blwyddyn academaidd 2020 i 2021. Mewn llawer o achosion, mae hyn wedi digalonni dysgwyr, gan olygu nad ydynt wedi gallu gwneud cynnydd yn y swyddi maen nhw ynddynt, neu'n methu gwneud cais am swyddi yn gysylltiedig â'u cymwysterau.

# Argymhellion ar gyfer darparwyr dysgu

## Argymhelliad 1

Dylai colegau addysg bellach, darparwyr dysgu yn y gwaith a phartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned sicrhau ansawdd darpariaeth dysgu o bell a dysgu cyfunol i sicrhau bod yr holl gyrsiau neu raglenni yn bodloni safon ansawdd ofynnol er mwyn lleihau'r amrywioldeb mewn darpariaeth.

## Argymhelliad 2

Dylai colegau addysg bellach, darparwyr dysgu yn y gwaith a phartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned sicrhau bod arweinwyr ac athrawon yn gallu elwa

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/datblygiadau-mewn-arferion-dysgu-o-bell-dysgu-cyfunol-ymateb-y-llywodraeth-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

ar ddysgu proffesiynol sy’n cefnogi datblygiad o ran sut i gynllunio addysgu a dysgu effeithiol o bell a chyfunol, yn ogystal â datblygu medrau addysgegol ac asesu athrawon ymhellach.

### Argymhelliad 3

Dylai colegau addysg bellach, darparwyr dysgu yn y gwaith a phartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned rhannu arfer sy’n dod i’r amlwg ac arfer arloesol o ran dysgu o bell a dysgu cyfunol o fewn, ac ar draws, sectorau ôl-16 yng Nghymru, a thu hwnt.

## Ymateb Llywodraeth Cymru i’r argymhellion ar gyfer darparwyr dysgu

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda darparwyr dysgu a rhanddeiliaid allweddol i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r argymhellion hyn. Bydd buddsoddiad cyllid grant Llywodraeth Cymru yn parhau i helpu darparwyr dysgu ôl-16 i ddatblygu darpariaeth addysgu a dysgu o bell a chyfunol o ansawdd uchel, fwy cyson, drwy gynnig cyfleoedd datblygu proffesiynol, gan alluogi'r sector yng Nghymru i elwa o'r sylfaen ymchwil a thystiolaeth ehangach sy'n tyfu'n gyflym, a hyrwyddo arfer da.

Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi ariannu gweithgareddau datblygu proffesiynol ar gyfer y sectorau Addysg Bellach, Dysgu Seiliedig ar Waith a Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn 2020 i 2021, ac mae wedi gweithio gyda chynrychiolwyr o'r sector ôl-16 a rhanddeiliaid allweddol i gynhyrchu **canllawiau dysgu cyfunol** ar gyfer darparwyr dysgu ac ymarferwyr addysgu. Bydd unrhyw ganllawiau neu gymorth pellach a ddatblygir yn ystod y misoedd nesaf, ac wrth baratoi ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf, yn ystyried canlyniadau astudiaethau ac arolygon amrywiol sydd i'w cyhoeddi, ac enghreifftiau perthnasol o arfer da sy'n dod i'r amlwg ac a nodwyd gan Estyn a Jisc.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/datblygiadau-mewn-arferion-dysgu-o-bell-dysgu-cyfunol-ymateb-y-llywodraeth-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru

## Argymhelliad 4

Dylai Llywodraeth Cymru barhau i gefnogi'r sector ag arweiniad i alluogi darparwyr i ddatblygu dulliau dysgu o bell a dysgu cyfunol o ansawdd da, yn enwedig o ran cefnogi'r dychwelyd i addysgu a hyfforddiant uniongyrchol, ac asesu medrau galwedigaethol a thechnegol ymarferol.

### Ymateb Llywodraeth Cymru

Gan weithio gyda'r sector a chynrychiolwyr rhanddeiliaid ar y Gweithgor Dysgu Cyfunol (o dan ein Cynllun Cydnerthedd Covid-19 ar gyfer y sector Ôl-16), mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu **canllawiau ar ddysgu cyfunol** ac wedi cyfeirio at **ddeunydd datblygiad proffesiynol** ar-lein am ddim i staff y sector.

Bydd unrhyw ganllawiau neu ddeunyddiau cymorth pellach a ddatblygir yn ystod y misoedd nesaf yn ystyried canlyniadau astudiaethau ac arolygon amrywiol sydd i'w cyhoeddi. Byddwn hefyd yn gweithio'n agos gyda'r sector i sicrhau y bydd unrhyw adnoddau pellach yn ychwanegu digon o werth at ganllawiau sy'n bodoli eisoes, ac integreiddio adnoddau a gynhyrchir gan y sector fel rhan o raglenni a ariennir eisoes ar ddysgu proffesiynol a chyflenwi digidol.

## Argymhelliad 5

Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu dysgu proffesiynol ar gyfer y sector ôl-16, sy'n rhad ac am ddim  i ddarparwyr ac yn eu helpu i ddatblygu arbenigedd penodol mewn dylunio, addysgu, hyfforddiant a dysgu o ran dysgu cyfunol a dysgu o bell ar gyfer eu sector i leihau amrywioldeb yn ansawdd y ddarpariaeth.

### Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi £5 miliwn i gefnogi gweithgareddau datblygu proffesiynol sefydliadol a chydweithredol yn y sector Addysg Bellach yn

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/datblygiadau-mewn-arferion-dysgu-o-bell-dysgu-cyfunol-ymateb-y-llywodraeth-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

ystod 2020 i 2021. Bydd y cymorth hwn yn parhau yn 2021 i 2022.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu gweithgareddau dysgu proffesiynol ar gyfer darparwyr dysgu oedolion yn 2020 i 2021, a dylunio a chyflwyno cwrs addysgeg ddigidol peilot ar gyfer ymarferwyr Dysgu Seiliedig ar Waith (gan Jisc).

Mae cyllid Llywodraeth Cymru i Jisc yn cefnogi nifer o weithgareddau datblygiad proffesiynol yn 2020 i 2021 gan gynnwys lleoedd wedi'u hariannu ar gyrsiau hyfforddi Jisc (a ddarperir ar-lein ar hyn o bryd) a rhannu gwybodaeth ac arfer da yn seiliedig ar 'gymuned ymarfer'. Mae cyrsiau hyfforddi perthnasol Jisc yn cynnwys arweinyddiaeth ddigidol a chynllunio cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu galluoedd digidol fel rhan o'u cwrs, modiwl neu uned ddysgu.

Rydym yn edrych ar sut i adeiladu ar y cymorth hwn a pharhau ag ef yn 2021 i 2022.

## Argymhelliad 6

Dylai Llywodraeth Cymru alluogi partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned a dysgwyr i gael mynediad at blatfform digidol cenedlaethol canolog i ddarparu dysgu o bell a dysgu cyfunol yn haws.

### Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Jisc i gynnal astudiaeth ar y seilwaith TG a digidol yn y sector ôl-16 yng Nghymru. Fel rhan o'r astudiaeth hon, rydym wedi gofyn i Jisc archwilio anghenion y sector dysgu oedolion, mewn perthynas â chyflwyno addysgu a dysgu yn ddigidol, yn fanylach.

## Argymhelliad 7

Dylai Llywodraeth Cymru annog a chefnogi darparwyr i rannu arfer sy’n dod i’r amlwg mewn dysgu o bell a dysgu cyfunol o fewn, ac ar draws, sectorau ôl-16 yng Nghymru.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/datblygiadau-mewn-arferion-dysgu-o-bell-dysgu-cyfunol-ymateb-y-llywodraeth-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

### Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae cyllid grant blynyddol Llywodraeth Cymru i Jisc yn cefnogi'r math hwn o weithgaredd. Mae amrywiaeth o rwydweithiau darparwyr a rhanddeiliaid, gan gynnwys grŵp llywio Digidol 2030 a grŵp Gweledigaeth Ddigidol Addysg Bellach, y gellir eu defnyddio i ledaenu arfer da a phrofiadau o ddysgu o bell a chyfunol. Yn ogystal, bydd cyflwyno cyfrifon Hwb i staff darparwyr ôl-16 yn gwella gallu ymarferwyr ac arweinwyr i rannu gwybodaeth ac adnoddau ar draws y sector.

## Manylion cyhoeddi

Mae Estyn yn bwriadu cyhoeddi’r adolygiad yma ar, neu ar ôl, 23 Mawrth 2021.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/datblygiadau-mewn-arferion-dysgu-o-bell-dysgu-cyfunol-ymateb-y-llywodraeth-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Ynghylch y ddogfen hon

Mae’r ddogfen hon yn gopi o’r dudalen we **Datblygiadau mewn arferion dysgu o bell a dysgu cyfunol: ymateb y llywodraeth** a lawrlwythwyd.

Ewch i **https://llyw.cymru/datblygiadau-mewn-arferion-dysgu-o-bell-dysgu-cyfunol-ymateb-y-llywodraeth-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/datblygiadau-mewn-arferion-dysgu-o-bell-dysgu-cyfunol-ymateb-y-llywodraeth-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.